

**COFNODION O GYFARFOD CYNGOR CYMUNED HARLECH A GYNHALIWDYD YN YR HEN LYFRGELL, HARLECH AM
7.30 O'R GLOCH 03.02.25**

YMDDIHEURIADAU

Cyng. Christopher Braithwaite (Cadeirydd), Ceri Griffiths, Gordon Howie,

PRESENNOL

Cyng. James Maxwell (Is-Gadeirydd), Edwina Evans, Wendy Williams, Rhian Corps, Mark Lewis, Simon Turner, Martin Hughes, Reg Chapman, a'r Cyng. Annwen Hughes a Gwynfor Owen (Cyngor Gwynedd).

Yn absenoldeb y Cadeirydd cymerwyd y Gadair gan yr Is-Gadeirydd

'Roedd 15 aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar gychwyn y cyfarfod.

CYHOEDDIADAU Y CADEIRYDD

Datganodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor Ffordd Ymlaen wedi cwrdd ac wedi ystyried argymhellion adroddiad Hanks a'r is-bwyllgor Archwilio. Argymhellodd y Pwyllgor Ffordd Ymlaen fod y Cyngor ym mhwyllgor y Cyngor ym mis Mawrth yn derbyn yr argymhellion yn llawn ynghyd â'r amserlen a luniwyd i'w cyflawni. Er y bydd nifer o'r argymhellion yn cymryd amser i'w cyflawni, cynghorodd aelodau'r Pwyllgor Ffordd Ymlaen yn gryf y dylid sefydlu'r wefan newydd ar frys.

COFNODION

Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod Ionawr 6ed ar 27ain 2025 fel rhai cywir.

Nid oedd y Cyng. Reg Chapman yn derbyn bod y cofnodion o gyfarfod y 6ed o Ionawr yn gywir oherwydd bod y mater yn ymwneud a cyllideb y Cyngor am y flwyddyn 2025/26 ddim yn gywir am bod y ffigyrau hyn heb gael eu derbyn. 'Roedd wedi anfon gwelliant i'w gynnwys yn y cofnodion ond nid oedd hwn wedi cael ei dderbyn.

Datganodd y Clerc bod y Cadeirydd wedi datgan bod y cofnodion yn gywir fel ag yr oeddynt. 'Roedd yr Aelodau oedd yn bresennol yn derbyn y cofnodion fel rhai cywir arwahan i'r Cyng. Reg Chapman a Martin Hughes.

MATERION YN CODI O'R COFNODION

Nid oedd unrhyw fater yn codi o'r cofnodion.

DATGAN BUDDIANT

Datganodd y Cyng. Mark Lewis ddiddordeb yn y mater yn ymwneud a HAL ag fe arwyddwyd Dogfen Datgan Buddiant Personol ganddo ag nid oedd yn bresennol pan drafodwyd y mater.

Datganodd y Cyng. Simon Turner ddiddordeb yn y mater yn ymwneud a HAL ag fe arwyddwyd Dogfen Datgan Buddiant Personol ganddo ag nid oedd yn bresennol pan drafodwyd y mater.

Datganodd y Cyng. Reg Chapman ddiddordeb yn y mater yn ymwneud a HAL ag fe arwyddwyd Dogfen Datgan Buddiant Personol ganddo ag nid oedd yn bresennol pan drafodwyd y mater.

MATERION CYNGOR GWYNEDD

Fe dderbyniwyd yr adroddiad canlynol gan y Cyng. Annwen Hughes ar Cyng. Gwynfor Owen – Adroddodd y Cyng. Annwen Hughes ers y cyfarfod diwethaf ei bod wedi sylwi yn ystod mis Rhagfyr bod arwydd wedi cael ei osod ar y peiriant talu ag arddangos yn maes parcio Min y Don bod y maes parcio hwn am ddim oherwydd bod y toiledau gerllaw wedi cau ag 'roedd wedi cysylltu gyda'r Swyddog priodol o Gyngor Gwynedd ynglyn a hyn a wedi cael gwybod ganddynt mae arwydd ffug oedd wedi cael ei osod yna a nid arwydd swyddogol gan Gyngor Gwynedd. 'Roedd wedi derbyn sawl cwyn ynglyn a chyflwr bler y dref wrth ddod i mewn o gyfeiriad Llanfair a wedi cael trafodaeth ynglyn a hyn gyda Swyddog o'r Parc Cenedlaethol am bod yr ardal hyn i fewn yn Ardal Cadwraeth y dref. 'Roedd wedi cael cwynion bod ffordd glan y mor heb gael ei greianu yn ystod y tywydd oer ddechrau mis diwethaf ag 'roedd wedi cysylltu gyda'r Adran Prifffyrdd ynglyn a hyn.

Adroddodd y Cyng. Gwynfor Owen ei fod wedi derbyn cwynion ynglyn a safle yr hen Ysgol a bod Cyngor Gwynedd wedi comisiynu adroddiad l ddatblygu y safle. 'Roedd materion cyllidol Cyngor Gwynedd yn fregus iawn am ei fod yr isaf ond un setliad o'r gwaelod yn Gymru ond bod cyllideb Llywodraeth Cymru heb gael ei gytuno eto a bydd treth y Cyngor yn codi tua 8.9%. Wedi ymweld a safle Ffridd Rasus a bod datblygiad cyffroes yno ond ei fod wedi derbyn cwynion bod loriau ysbwriel preifat yn teithio drwy Harlech.

MATERION YN CODI

Cynllun Cyllideb

Adroddwyd bod £58,723.75 (a oedd yn cynnwys costau banc) wedi cael ei wario ers cychwyn y flwyddyn ariannol newydd a bod hyn yn £39,801.80 o wariant yn llai na oedd wedi cael ei glustnodi yn y gyllideb am y flwyddyn. (Mae hyn ar ol i'r gyllideb gael ei ail wneud).

Datganodd y Cadeirydd byddai y mater isod yn cael ei drafod ar ddiwedd yr agenda

HAL a Rhybudd o Gynnig

Fe dderbyniwyd yr adroddiad canlynol gan y Cyng. Mark Lewis ar ran Aelodau Bwrdd HAL

Cyllid:

£8,455 Cyfrif Cyffredinol £6,321

Grant loteri ar gyfer gwersi nofio, hysbysebu ac ati. £14,776

Cyfanswm cronfeydd £6,943

Cerdyn banc HSBC. Dyled ar 22ain Ebrill.

£12,000 yn ddyledus i Gyngor Gwynedd am drydan.

£18,943 Dyledion cyfan

Mae gennym un taliad arall i'w wneud i ddod â'r taliad am y trydan i ben (nawr wedi ei gau lawr). Ar ôl hynny, bydd y defnydd o'r cyllid yn £0 hyd at Orffennaf pan ddaw'r polisi yswiriant i ben. Ein nod yw cwblhau trosglwyddo'r ased a gwneud tynnu'r cwmni'n wirfoddol erbyn hynny. Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno i ddileu'r holl £12,000 sydd yn ddyledus iddynt os ydym yn penderfynu ar ganlyniad wedi'i seilio ar y gymuned ar gyfer y safle cyn diwedd mis Chwefror. Os bydd y penderfyniad yn cael ei ohirio y tu hwnt i hynny, bydd rhaid i Gwynedd ddychwelyd y gyllideb ac y bydd HAL yn mynd yn fethdalwr. Os bydd HAL yn mynd yn fethdalwr, ni chaniateir i HAL drosglwyddo'r ased a bydd yn mynd yn ôl i'r Goron. Mae'r Loteri Genedlaethol wedi cytuno y bydd y balans o'r grant loteri yn ddi-dreth os ydym yn penderfynu ar ganlyniad wedi'i seilio ar y gymuned ar gyfer y safle. Mae'r tîm yn argymhell y dylai HCC wneud y taliadau precept mis Chwefror a Mawrth i HAL. Bydd y arian hwn yn cael ei ddefnyddio i dalu costau cyfreithiol yn ymwneud â throsglwyddo'r ased a phosibl gostau yswiriant os na ellir cwblhau'r trosglwyddiad erbyn Gorffennaf. Pan fydd HAL yn cael ei dynnu, bydd unrhyw arian na chaiff ei wario yn cael ei ddychwelyd i HCC.

Cynllunio:

Cynhaliodd y tîm gyfarfod gyda Aled Lloyd, Pennaeth Cynllunio Eryri. Dywedodd mai'n debygol y bydd yn cefnogi unrhyw opsiwn sy'n gwella apêl weledol yr adeilad presennol. Cafodd opsiynau derbyniol eu trafod, gan gynnwys canolfan gymnasteg newydd, gwesty, ysbyty, cartref gofal neu tai newydd.

Lleihau risg:

Mae'r ddau opsiwn wedi'u seilio ar y gymuned sy'n cael eu hystyried yn dibynnu ar sicrhau grantiau. Mae'r cyllid hwnnw'n ansicr. Mae'n hanfodol osgoi'r senario lle mae'r ased yn cael ei drosglwyddo i drydedd parti sy'n methu â sicrhau grantiau digonol, yn mynd allan o fusnes ac yn dychwelyd yr ased i'r Goron. Efallai y byddant hefyd yn eistedd ar yr ased am flynyddoedd ac yn ei werthu yn y pen draw. Er mwyn sicrhau nad yw hyn yn digwydd, awgrymwn y dylai HCC dderbyn yr ased ac yna lesu'r rhan fwyaf ohono neu ran ohono i'r trydedd parti. Os bydd y trydedd parti yn methu'n ariannol neu yn methu i ddarparu'r manteision a addawyd i'r gymuned, gellir dod ar les i ben a gall HCC ail-ddefnyddio'r ased yn y modd sy'n bodloni anghenion y gymuned orau. Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno i weithio gyda HCC ar fframwaith cyfreithiol a fydd yn galluogi HCC i werthu'r ased am y pris gorau posibl ar y farchnad agored ac yn rhannu'r incwm 50/50 os bydd prosiect wedi'i seilio ar y gymuned yn methu. Mae hyn yn sicrhau na fydd HCC yn cael ei dwyllo i dalu am yswiriant atebolrwydd ar gyfer adeilad sy'n pydru a nad oes unrhyw un eisiau ei brynu. Mae'r opsiynau ar gael ar hyn o bryd:

- Gwerthu'r ased ar y farchnad agored a rhoi rhan Harlech o'r elw i HCC er mwyn defnyddio'r arian i ariannu prosiectau cymunedol. Rydym wedi cadarnhau bod gan yr ased werth masnachol ac rydym yn gweithio i'w quantifio. Mae angen i ni gadarnhau telerau'r gwerthiant gyda Chyngor Gwynedd.

- Trosglwyddo'r safle i HCC a fydd yn lesu'r rhan fwyaf ohono i Academi Gymnasteg Moelwyn ("MGA"). Byddant yn dinistrio'r adeilad presennol i adeiladu canolfan gymnasteg genedlaethol Gogledd Cymru gyda chymunedol hyb lles. Bydd HCC yn cadw rheolaeth ar y maes parcio, y ffordd fynediad a'r ffens. Bydd lease MGA yn cynnwys cyfran o'r cynnal a chadw o'r rhannau cyffredin. Bydd y cytundeb lease yn diffinio amserlenni ar gyfer codi arian, adeiladu a chynhyrchu, yn ogystal â'r cyfleusterau cymunedol a ddarperir. Mae MGA'n agored i weithio gyda HCC ar leoliad y adeilad newydd, gan agor y posibilrwydd o grwpiau cymunedol eraill yn adeiladu ystafelloedd newid pêl-droed, pwll bach neu gyfleusterau eraill fel rhan o ganolfan hamdden ehangach sydd yn eiddo i HCC.
- Trosglwyddo'r ased i HCC a fydd yn lesu'r rhan fwyaf neu'r cyfan ohono i endid newydd ("HAL2") a sefydlwyd gan grŵp o bobl leol a arweinir gan Laura Sanderson. Maent yn bwriadu ceisio grantiau i atgyweirio a aildddechrau'r pwll nofio a'r wal ddringo, a chyflwyno cyfleusterau newydd fel saunâ. Mae'r rheolaeth ar y maes parcio a'r ardaloedd cyffredin a'r cymorth posibl gan HCC trwy'r precept yn dal i'w cytuno. Mae'r tîm hwn wedi gwneud gwaith gwych yn y mis diwethaf wrth wneud atgyweiriadau brys i'r adeilad i atal y llifogydd rhag gwaethygu.

Amserlen:

Bydd yn rhaid i'r grwpiau sydd â diddordeb gyflwyno eu cynigion a'u cynllun ariannol erbyn Chwefror 7fed ac yna eu cyflwyno i'r tîm HAL / HCC ar Chwefror 12fed. Bydd yr holl opsiynau yn cael eu cyflwyno yn y cyfarfod ymgynghori cyhoeddus ar Chwefror 19eg. Bydd tîm HAL / HCC yn gwneud penderfyniad terfynol ar Chwefror 21ain a chyfathrebu hyn i Gyngor Gwynedd mewn pryd er mwyn dileu'r ddyled o £12,000.

Cyfiawnhau amseru penderfyniad

Trwy ddarparu adnoddau dynol a chyllidol, mae HCC wedi rhoi bron i 3 mis i ni ymchwilio a dewis y ffordd orau ymlaen ar gyfer safle'r pwll nofio. Ym mis Rhagfyr, roeddem yn wynebu'r ased yn mynd i'r ystad y goron erbyn diwedd yr wythnos. Ymddangosodd tri aelod o fwrdd HAL blaenorol yn ymddiswyddo ar ôl eu cyfarfod cyntaf gyda ni oherwydd nad roddwyd stamp cymeradwyaeth ar eu dewis o drosglwyddo cyflym i Moelwyn Gymnastics, ac yn hytrach, roeddem yn insisio ar werthuso pob opsiwn. Gofynnwyd am syniadau gan y cyhoedd ym mis Rhagfyr a dechrau mis Ionawr.

Rydym yn bwriadu gwneud penderfyniad cyn diwedd mis Chwefror oherwydd:

1. Dim ond os dewiswn opsiwn sy'n cael ei drefnu ar gyfer y gymuned ym mis Chwefror y bydd Cyngor Gwynedd yn dileu'r £12,000 sydd yn ddyledus am drydan.
2. Mae'r taliad yswiriant nesaf ar gyfer mis Gorffennaf. Bydd hwn yn £6,000 a mwy. Mae angen i ni gwblhau trosglwyddiad cyfreithiol yr ased erbyn hynny. Mae hynny'n golygu dechrau'r broses gyfreithiol mor fuan â phosibl. Rhaid i ni drafod newidiadau i'r dogfennau gyda Gwynedd, y trosglwyddo i HCC a phrydles gyda'r tenant newydd.
3. Roedd Moelwyn Gymnastics eisiau penderfyniad misoedd yn ôl. Maent wedi rhybuddio wrthym fod ganddynt opsiynau eraill yn datblygu ac mae eu amynedd wedi'i gyfyngu.
4. Mae'r 2 aelod blaenorol o fwrdd HAL sydd wedi aros wedi ymrwymo i'w hamser tan fis Mawrth. Mae'r tîm cyfan wedi blino. Yn bersonol, ni allaf neilltuo llawer mwy o amser i'r prosiect y tu hwnt i fis Chwefror.
5. Mae mwy o amser ac o wybodaeth bob amser yn ddefnyddiol, ond pleidleisiodd y tîm a phenderfynodd y byddwn yn cael digon o wybodaeth erbyn diwedd mis Chwefror i wneud penderfyniad. Bydd yr wybodaeth hon bob amser yn anhegwch. Er enghraifft, nid ydym yn gwybod a fydd y ceisiadau am grantiau y bydd y cynigwyr yn eu derbyn. Nid ydym yn gwybod a fydd y niferoedd ymwelwyr a addawyd yn ymddangos. Nid ydym yn gwybod a fyddwn yn gallu cytuno a llofnodi cytundeb prydles gyda'r tenant newydd. Nid ydym yn gwybod a fydd y tîm rheoli a ddewisir yn cyflawni'r hyn maent yn ei addo. Mae'n rhaid i ni wneud penderfyniad trwy gydbwyso'r manteision posibl a'r risgiau.

Mae gan 5 cyfarwyddwr cwmni HAL ddyletswydd gyfreithiol i dalu ein crededwyr cyn gwneud unrhyw drosglwyddiad ased. Bydd oedi o fis yn unig yn ein costio £18,000 ac yn ei gwneud yn amhosibl trosglwyddo'r ased. Byddwn wedyn yn cael ein gorfodi i'w werthu er mwyn clirio ein dyledion.

Penderfyniad:

Er mwyn symud ymlaen gyda'r cynllun a amlinellwyd uchod, mae is-bwyllgor HCC sy'n gyfrifol am HAL yn gofyn i Aelodau HCC gymeradwyo'r penderfyniad hwn.

Cyn cychwyn y drafodaeth ynglyn ar isod gofynnodd y Cadeirydd I is-bwyllgor HCC sydd yn gyfrifol am HAL ag aelodau y cyhoedd oedd yn bresennol I adael yr ystafell er mwyn diogelu Aelodau o'r Cyngor Cymuned. Fe gafwyd bleidlais ynglyn a hyn ag 'roedd y Cyng. James Maxwell, Rhian Corps, Edwina Evans a Wendy Williams o blaid I'r cyhoedd adael ar Cyng. Martin Hughes yn erbyn I'r cyhoedd adael.

Mae Cyngor Cymuned Harlech yn cynnig cymryd perchnogaeth o asedau HAL a llogi'r eiddo i'r trydydd parti a nodwyd gan dîm cyfun HAL / Cyngor Cymuned Harlech. Bydd y trydydd parti yn talu i adnewyddu'r safle neu rhan o'r safle. Bydd yr eiddo a'r holl welliannau yn parhau i fod yn eiddo i Gyngor Cymuned Harlech. Er mwyn amddiffyn y gymuned rhag prosiect sydd yn cael ei ohirio neu sy'n methu, bydd y les yn nodi camau a rhaid eu cyflawni, neu bydd y lles yn ddarostyngedig i derfynu, ar yr adeg honno bydd Cyngor Cymuned Harlech yn gwaredu'r ased fel sy'n cwrdd orau â hanglenion y gymuned. Mae'r cynnig hwn yn amodol ar Gyngor Gwynedd yn ystyried trafod fframwaith cyfreithiol fyddai yn galluogi Cyngor Cymuned Harlech i werthu yr ased am y pris gorau posib ar y farchnad agored gyda'r elw yn cael ei rannu 50/50 rhwng Cyngor Cymuned Harlech a Cyngor Gwynedd. Byddai Cyngor Cymuned Harlech yn talu y balans (os oes unrhyw) o gostau rhedeg HAL, costau cyfreithiol a dyledion er mwyn sicrhau bod HAL yn rhydd o ddyled ar adeg y trosglwyddiad. Mae is-bwyllgor Cyngor Cymuned Harlech sydd yn gyfrifol am HAL wedi ei awdurdodi i drafod y gytundeb gyfreithiol gyda Chyngor Gwynedd ag i drafod cytundeb y brydles gyda'r trydydd parti a ddewiswyd. Mae'r is-bwyllgor wedi ei awdurdodi i ennyn diddordeb cyngor cyfreithiol proffesiynol ar draul Cyngor Cymuned Harlech.

'Roedd y Cyng. Martin Hughes eisiau gwneud gwelliant i'r cynnig uchod drwy ychwanegu y canlynol – bod cofrestr risg strwythurol ag ariannol yn cael ei greu. 'Roedd yr Aelodau oedd yn bresennol yn cytuno i'r gwelliant hwn.

Polisi Asesiad Risg Ariannol y Cyngor

Adroddodd y Clerc bod yr eitem uchod fel arfer yn cael ei gynnwys ar agenda mis Ionawr o gyfarfod y Cyngor, ond yn anffodus nid oedd digon o amser i'w drafod yn y cyfarfod uchod. 'Roedd y Clerc wedi anfon copi o'r polisi hwn ymlaen i'r Aelodau yn barod. Cytunwyd i dderbyn y polisi asesiad risg ariannol hwn.

Gwefan y Cyngor

Adroddodd y Clerc ei bod wedi anfon at bedwar cwmni ynglyn a creu gwefan newydd i'r Cyngor a bod dau wedi ymateb yn gadarnhaol. Ar ol trafodaeth cytunwyd gofyn i Mr. Owen Brown greu gwefan i'r Cyngor ag i'r Clerc gysylltu gyda ef ynglyn a hyn.

Cofrestr Asedau y Cyngor

Adroddwyd bod y gofrestr uchod wedi cael ei anfon allan i bob Aelod peth amser yn nol ag ar ol trafodaeth cytunwyd ei dderbyn.

Rhandiroedd

Adroddodd y Cyng. Reg Chapman bod cyfarfod wedi ei gynnal ar y safle uchod gyda'r tenantiad presennol dydd Sadwrn diwethaf y 1af o'r mis hwn a bod cyfarfod arall yn cael ei gynnal gyda rhai sydd a diddordeb i rentu rhandir dydd Sadwrn nesa yr 8ed o'r mis hwn. Cafwyd wybod bod angen creu llwybr drwy canol y safle ag hefyd bydd rhai o'r tenantiad yn cymeryd drosodd i redeg y safle. Datganwyd bod angen adfer y darn tir gerllaw y rhandiroedd i'w gyflwr gwreiddiol.

Cynllun Rheolaeth Llwybr Natur

Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn dwy adroddiad gan y Swyddog Coedwig a Choedlannau, Parc Cenedlaethol Eryri, ynglŷn â'r coed ar y llwybr natur o'r enw uchod, ac fe ddywedodd ei bod yn argymhell i'r Cyngor Cymuned gau'r llwybr coetir tan i'r gwaith angenrheidiol ar rai o'r coed gael ei gwblhau. Derbyniwyd hefyd adroddiad am yr arolwg coedwig hynafol gan yr un Swyddog ac fe ddywedodd fod arian ar gael ar gyfer unrhyw waith cyfalaf, felly gallant dalu am y gwaith angenrheidiol i reoli'r Laurèl, sydd yn cael ei argymhell yn yr adroddiad, ac hefyd gallant gyfrannu hyd at 50% tuag at y gwaith i wneud y coed yn ddiogel (hyd at £2,500). Cytunwyd i ofyn i'r Swyddog Cedwig a Choedlannau am fenthgy arwyddion "llwybr ar gau" ag hefyd cael tap coch a gwyn ganddo. Hefyd cytunwyd gofyn i Mr. Tom Edwards gario allan y gwaith cyn gynted a phosib ar y coed fel yr oedd yn amlinellu yn y ddwy adroddiad.

Tir Penygraig

Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn llythyr termau gan Mr. Dylan Edwards, Cyfreithiwr o gwmni Guthrie Jones & Jones ynglŷn ar mater uchod ag yn gofyn i'r Cyngor dalu £2,400 fel costau cyfreithiol Addysg Oedolion Cymru fel a oedd wedi cael ei gytuno i drosglwyddo y darn tir hwn i'r Cyngor. Hefyd yn gofyn i'r Cyngor dalu £800 er mwyn iddynt gael cario allan chwiliadau tir. 'Roedd y Cyngor wedi derbyn llythyr termau gan Guthrie Jones & Jones yn egluro y berthynas rhwng nhw ar Cyngor ag yn gofyn i'r Cyngor ei arwyddo os oeddynt yn hapus gyda'i gynnwys. Cytunwyd bod y taliadau hyn yn cael eu gwneud ag hefyd cytunwyd i'r Is-Gadeirydd ar Clerc arwyddo y llythyr termau ar ran y Cyngor.

CEISIADAU CYNLLUNIO

Diwygiad ansylwedddol i NP5/61/479C dyddiedig 08/12/2023 i leihau maint y garej arfaethedig a chael gwared ar ffenestri a ffenestri to Bryn Gwylan, Ffordd Uchaf, Harlech (NP5/61/479D)

Cefnogi y cais hwn.

Codi balconi cefn ac ochr gyda balwstradau gwydr, pont newydd i gael mynediad i'r ardd uchaf a chodi pergola pren newydd i'r teras Afallon, Ffordd Pen Llech, Harlech (NP5/61/670)

Cefnogi y cais hwn.

Dymchwel y balconi dur presennol a chodi balconi dur a gwydr newydd yn y cefn (Drychiad gorllewinol), cau dwy ffenestr a gosod 'pyst gwenyn' Treflan, 32 Heol y Bryn, Harlech (NP5/61/671)

Cefnogi y cais hwn.

Rhyddhau Amod 17 (Enwau strydoedd ac arwyddion cysylltiedig) ynghlwm i Ganiatâd Cynllunio NP5/61/654 dyddiedig 17/01/2025 Tir ger Pen yr Hwylfa, Harlech (NP5/61/654E)

Cefnogi y cais hwn.

ADRODDIAD Y SWYDDOG ARIANNOL CYFRIFOL

Adroddodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol bod £11,880.73 yn y cyfrif rhedegol a £103,816.06 yn y cyfrif cadw.

Taliadau yn ystod y mis

Un Llais Cymru	- £40.00 – hyfforddiant Cynghorwr
Cyngor Gwynedd	- £210.00 – costau Etholiad
Cyngor Gwynedd	- £1,143.07 - codi a thynnu goleuadau nadolig
Signs Workshop Ltd	- £474.00 – hysbysfwrdd bach I gae chwarae Brenin Sior V
Signs Workshop Ltd	- £1,624.80 – hysbysfwrdd mawr I gae chwarae Brenin Sior V
Guthrie Jones & Jones	- £2,400.00 – costau cyfreithiol ynglŷn a phrynnu tir Penygraig
Guthrie Jones & Jones	- £800.00 - costau chwiliadau ar tir Penygraig
Pwyllgor Hen Lyfrgell	- £216.00 - llogi ystafell gyfarfod
Dwr Cymru	- £486.06 - dwr yn toiledau cyhoeddus ger y castell
Dwr Cymru	- £17.53 - tap dwr y rhandiroedd

Ceisiadau am gymorth ariannol

Hamdden Harlech ac Ardudwy - £1,824.75 – cynnig precept (taliad misol)

Fe gafodd y taliadau uchod eu prosesu gan y Cyng. Simon Turner a wnaeth y Cyng. Edwina Evans gymeradwyo'r taliadau ag fe roddwyd ganiatad l'r Clerc/Trysorydd l'w talu ar lein neu drwy siec ar ddiwedd y cyfarfod. Rhoddwyd ganiatad l'r Swyddog Ariannol Cyfrifol drosglwyddo £20,000 o'r cyfrif cadw l'r cyfrif rhedegol.

Derbyniadau yn ystod y mis

Cyllid a Thollad - £280.10 – ad-daliad TAW

Pritchard a Griffiths - £945.00 – claddu y diweddar Mrs Olwen Muriel Lloyd

Pritchard a Griffiths - £945.00 – claddu y diweddar Mrs Gweneth Mair Evans

Anfonebau wedi eu talu ers y cyfarfod diwethaf

Catrin Soraya Williams – Dim - gwasanaeth cyfieithu

Adroddodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol bod yn amser gofyn i Ms Luned Fon Jones o Adran Cyllid, Cyngor Gwynedd a fyddai yn fodlon gweithredu fel Archwiliwr Mewnol y Cyngor eto eleni. Cytunwyd bod y Swyddog Ariannol Cyfrifol yn anfon y llythyr hwn yn gofyn iddynt weithredu ar ein rhan eto eleni.

GOHEBIAETH

Cyngor Gwynedd – Adran Amgylchedd

Wedi derbyn llythyr gan yr Adran Rheoliadau Adeiladu yn hysbysu y Cyngor bod datblygwr yr ystad dai newydd ger Pen yr Hwylfa wedi awgrymu'r enw canlynol fel enw i'r datblygiad sef Gwel y Castell ag yn datgan y byddant yn gwerthfawrogi sylwadau y Cyngor ar yr enw mor fuan a phosibl. Hefyd yn datgan os yw y Cyngor yn gwrthwynebu yr enw a gynigwyd, yna mae'n rhaid i'r gwrthwynebiad fod yn un dilys h.y. enw cyffelyb yn yr ardal. Adroddodd y Clerc ymhellach ei bod wedi derbyn e-bost gan Mrs Annwen Parry Williams, Pennaeth, Ysgol Gynradd Tan y Castell yn datgan bod disgyblion yr ysgol wedi awgrymu rhai enwau i'r ystad newydd a mae Llys Meillion oedd y ffefryn ganddynt. 'Roedd y Clerc wedi anfon y llythyr hwn ymlaen i'r Aelodau yn barod. Cytunwyd ateb y llythyr gan ddatgan byddai y Cyngor yn falch o weld enw Llys Meillion neu Cae Meillion fel enw yr ystad dai hon.

Cyngor Gwynedd – Adran Amgylchedd

Wedi derbyn llythyr gan yr uchod yn hysbysu y Cyngor bod Ffordd Uchaf o bwynt ger Brig y Don yn cael ei chau ar y 24ain o'r mis hwn oherwydd bod angen y gwaharddiad ar sail iechyd a diogelwch i'r cyhoedd yn ystod gwaith adfer pibell gyfathrebu ar ran Dŵr Cymru. 'Roedd y Clerc wedi anfon y llythyr hwn ymlaen i'r Aelodau yn barod.

Cyngor Gwynedd – Adran Tai ag Eiddo

Wedi derbyn llythyr gan yr uchod ynglyn a Trwydded Gwaith Celf Parc Bron y Graig, Harlech ag yn gofyn i'r Cyngor gadarnhau ei gytundeb i delerau ac amodau'r Drwydded hon trwy lofnodi a dychwelyd copi o'r llythyr hwn. Roedd y Clerc wedi anfon y llythyr hwn ymlaen i'r Aelodau yn barod. Cytunwyd bod yr Is-Gadeirydd yn arwyddo y Drwydded hon ar ran y Cyngor.

Un Llais Cymru

Wedi derbyn e-bost gan yr uchod ynghyd a holiadur ynglyn a phwyllgorau ardal ag yn gofyn i'r Cyngor ei gwblhau erbyn yr 28ain o'r mis hwn. 'Roedd y Clerc wedi anfon yr e-bost hwn ymlaen i'r Aelodau yn barod. Cytunwyd bod y Cyng. Martin Hughes ar Clerc yn ei gwblhau ar y cyd.

Un Llais Cymru

Wedi derbyn llythyr gan yr uchod yn hysbysu y Cyngor bod cyfarfod cyffredinol blynyddol Un Llais Cymru yn cael ei gynnal ar lein dydd Mawrth yr 11eg o Fawrth rhwng 4.00 a 6.00 o'r gloch. 'Roedd y Clerc wedi anfon y llythyr hwn ymlaen i'r Aelodau yn barod. Cytunodd y Cyng. Martin Hughes fynychu y cyfarfod hwn ar ran y Cyngor.

Sian Gwenllian AS

Wedi derbyn llythyr gan yr uchod yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor yn datblygu Ysgol Deintyddol ym Mangor ag i anfon llythyr at Jeremy Miles AS yn datgan eu cefnogaeth. 'Roedd y Clerc wedi anfon y llythyr hwn ymlaen i'r Aelodau yn barod. Cytunwyd i gefnogi y datblygiad hwn.

Mr. Giles Bentham

Adroddwyd bod y Cadeirydd wedi derbyn e-bost gan yr uchod yn ei hysbysu ei fod yn ymddiswyddo o fod yn aelod o'r Cyngor. Cytunwyd i anfon yr e-bost hwn ymlaen i'r Swyddog Etholiadol yn Gaernarfon.

ARWYDDWYD.....Cadeirydd

DYDDIAD..... 828